

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD IAU, 26 MEHEFIN 2025

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD IAU, 26 MEHEFIN 2025 10:00

Presennol

Y Cyngorydd T Thomas – Cadeirydd

E D Winstanley

Presennol – O Bell

S Aspey
RM James

H T Bennett
G Walter

D T Harrison

M L Hughes

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

I M Spiller

Datganiadau o Ddiddordeb

Swyddogion:

Rachel Keepins
Nimi Chandrasena
Oscar Roberts

Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Aelodau a Maerol
Prentys Busnes Gweinyddol - Gwasanaethau Democrataidd

22. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd H Bennett, y Cyngorydd I Spiller a'r
------------------------	---

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD IAU, 26 MEHEFIN 2025

	Cynghorydd R Granville
Dyddiad gwneud y penderfyniad	26 Mehefin 2025

23. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	26 Mehefin 2025

24. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Gwasanaethau Democrataidd dyddiedig 13/06/2024 a 21/11/2024 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	26 Mehefin 2025

25. Diweddariad ar y Rhaglen Datblygu Aelodau

Y penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gyflawni Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Cyngor a gweithgareddau cysylltiedig, yn ogystal â gofyn i'r Pwyllgor nodi unrhyw bynciau pellach i'w cynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau. Nodwyd gwelliant yn y defnydd o e-ddysgu yn ogystal ag argaeledd hyfforddiant o bell yn y gorffennol ar wefan Dysgu a Datblygu'r Cyngor. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar: • Y sefydliadau a'r bobl sy'n darparu hyfforddiant penodol
------------------------	---

- Pynciau'r dyfodol ar gyfer Hyfforddiant Aelodau.
- Nifer yr Aelodau nad ydynt wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol, a chanlyniadau posibl methu â chwblhau'r hyfforddiant hwnnw.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau hyn gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r Cadeirydd, gan egluro bod negeseuon atgoffa rheolaidd yn cael eu hanfon at Arweinwyr Grŵp i fynd ar drywydd Aelodau yn ogystal ag i'r holl aelodau unigol.

PENDERFYNWYD:Bod y Pwyllgor:

a) Yn nodi'r adroddiad a'r atodiadau.

b) Yn nodi pynciau Tai Fforddiadwy, yn ogystal â Diwygio Lles ac Ymwybyddiaeth Budd-daliadau i'w cynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau a gofynnodd i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd archwilio ymhellach a ellid cynnal sesiwn hyfforddi neu friffio ar y pwnc o ddelio â phobl agored i niwed a chefnogi.

Gofynnodd y Pwyllgor ymhellach:

- fod hyfforddiant yn gallu cael ei gynnal lle bo hynny'n bosibl ar ddiwrnodau heb gyfarfodydd Pwyllgor sydd eisoes wedi'u trefnu i gyd-fynd yn well ag amserlenni Aelodau;
- Bod ystadegau hyfforddiant Aelod unigol ar gyfer y modiwlau e-ddysgu gorfodol yn cael eu cyhoeddi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Tachwedd;
- i negeseuon e-bost atgoffa at yr Aelodau gynnwys manylion yr union hyfforddiant nad yw wedi'i gwblhau ac argymhelliad bod yr Aelodau yn trefnu sesiwn hyfforddi os oes angen gyda'r Gwasanaethau Democrataidd i'w cynorthwyo.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD IAU, 26 MEHEFIN 2025

	Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd hefyd i anfon rhagor o nodiadau atgoffa unigol at Aelodau Etholedig nad ydynt yn rhan o grŵp i hwyluso hyfforddiant.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	26 Mehefin 2025

26. Cymorth Ymchwil a Gwasanaethau i Aelodau Etholedig – Protocol

Y penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, oedd darparu'r Protocol Cymorth Ymchwil a Gwasanaeth ar gyfer Aelodau Etholedig i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Pwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd hefyd yr heriau adnoddau i'r tîm Gwasanaethau Democrataidd yn ogystal â'r Cyngor yn ei gyfanrwydd gan ei fod yn ymwneud â chost adnoddau posibl rhai agweddau hyfforddi. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar: • Sut i gynyddu Gwaith Ymchwil a Gwerthuso mewn Craffu o bosibl; • Aelodau sy'n dal i dderbyn copïau papur o agendâu, a'r dulliau y maent yn eu derbyn; • Cylchlythyr Wythnosol yr Aelodau; • Y posibilrwydd o greu gweithgorau newydd o fewn pwyllgorau presennol neu sy'n deillio ohonynt. Ymdriniwyd â'r cwestiynau hyn gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. <u>PENDERFYNWYD:</u> bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Protocol Cymorth Ymchwil a Gwasanaethau i Aelodau Etholedig a'i ddosbarthu wedyn i'r holl Aelodau Etholedig Cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd i: • ymchwilio ymhellach i ddosbarthiad y Cylchlythyr Aelodau Newydd a anfonir drwy'r tîm Cyfathrebu a sicrhau bod gan bob Aelod yn BCBC ac yng Nghynghorau Tref a Chymuned y Fwrdeistref Sirol fynediad ato a hyrwyddo ei rannu gyda Chynghorwyr CTCh trwy eu Clercod; • E-bostio'r holl Aelodau i dynnu sylw at y wybodaeth sydd ar gael drwy Borth y Cynghorwyr; Dod ag adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol ar y defnydd o Agendâu papur yn y Cyngor a pha gefnogaeth sydd ei angen i geisio annog Aelodau a swyddogion i beidio â defnyddio copïau papur hyd yn oed ymhellach.
------------------------	---

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD IAU, 26 MEHEFIN 2025

Dyddiad gwneud y penderfyniad	26 Mehefin 2025
-------------------------------	-----------------

27. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Y penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, oedd darparu'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y cyfnod Mai 2024 i Mai 2025. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar fformat yr adroddiad i adlewyrchu ystadegau hyfforddiant e-ddysgu gorfodol yn well, ac a yw Arweinwyr Grŵp yn derbyn nodiadau atgoffa o Aelodau nad ydynt wedi cwblhau hyfforddiant. Ymdriniwyd â'r cwestiynau hyn gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor wedi derbyn ac wedi nodi'r Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth yn amodol ar gryfhau'r frawddeg ynghylch ystadegau e-ddysgu Aelodau i dynnu sylw at hyn yn fwy fel mater y mae angen mynd i'r afael ag ef.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	26 Mehefin 2025

28. Rhaglen Gwaith Ymlaen y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Y penderfyniad a wnaed	Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, oedd cyflwyno Blaenraglen Waith arfaethedig i'r Aelodau ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w hystyried a'i datblygu ymhellach. Tynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd sylw'r Pwyllgor ymhellach at y ffaith y gofynnwyd am ailddechrau Gweithgor y Porth gan ychydig o Aelodau y tu allan i'r Pwyllgor. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau am aelodaeth bosibl Weithgor y Porth <u>PENDERFYNWYD:</u> Ystyriodd y Pwyllgor y Blaenraglen Waith ddrafft arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghlwm yn Atodiad A a darparodd sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer eitemau pellach i'r Pwyllgor eu hystyried yn ei gyfarfodydd yn y dyfodol, gan gynnwys y rhai a drafodwyd yn flaenorol yn y cyfarfod. Cytunodd y Pwyllgor ymhellach i ailffurfio Gweithgor y Porth.
------------------------	--

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DYDD IAU, 26 MEHEFIN 2025

Dyddiad gwneud y penderfyniad	26 Mehefin 2025

29. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	26 Mehefin 2025

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:55